

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Robert Willner and Associates
Dental Practice, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 29 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?.....	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Robert Willner and Associates, yn Uned 1 Canolfan Siopa Betws, Lambourne Way, Betws, Casnewydd NP20 7TN, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 29 Hydref 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Robert Willner and Associates yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion, ac yn ceisio adborth ganddynt. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisiau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion ac y cânt eu storio'n ddiogel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth o linellau cyfrifoldeb clir ac arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.
- Roedd y practis yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau'r Datganiad o Ddiben i adlewyrchu'r ffaith bod y practis yn darparu tawelyddu.
- Dylid storio cofnodion cleifion yn ddiogel
- Dylid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Robert Willner and Associates yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Betws . Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, tair nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynydd ac un rheolwr practis/uwch nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym bod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd pawb a gwblhaodd yr holiadur fod y gwasanaeth yn rhagorol neu'n dda iawn.

Gwelsom fod pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, a dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn cael eu cynnwys, cymaint ag yr hoffent, mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddiwygo ei bolisi cwynion i gyfeirio at AGIC fel ffordd o ddatrys cwynion.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 38 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn dweud bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae'r canlynol:

“Mae gennyf bob ffydd yn y practis hwn a meddwl mawr ohono ac ni fyddwn yn petruso ei argymell i bobl eraill”

“Rwyf wedi bod gyda'r practis hwn ers bron i 20 mlynedd. Mae'r staff bob amser yn barod eu cymorth ac yn gwrtais”

“Rwyf bob amser wedi cael gwasanaeth rhagorol gan y practis deintyddol hwn. Mae'r deintydd wedi bod yn wych wrth ddarparu gofal deintyddol i fy mhlant a fi”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Oriau agor hirach”

“Mwy o apwyntiadau brys”

“Atgoffa am apwyntiadau ymlaen llaw drwy neges destun”

“Mwy o breifatrwydd yn yr ystafell aros”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn yr ardal aros, gwelsom fod detholiad o wybodaeth ar gael am iechyd y geg a thriniaethau deintyddol. Roedd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â diogelu data a chais i'r cleifion roi gwybod i'r deintydd os bu unrhyw newidiadau i'w hiechyd neu eu meddyginiaeth. Roedd gwybodaeth am ddiogelu hefyd yn nhoiledau'r staff a'r cleifion.

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal gydag urddas

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn foesgar i'r cleifion, a hynny dros y ffôn ac wyneb yn wyneb â'r rhai a oedd yn ymweld â'r practis. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio ardal dawel neu ddeintyddfa rydd, pe bai un ar gael, er mwyn cynnal sgwrs breifat â chlaf. Roedd gan bob deintyddfa ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn cael triniaeth er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cyfrinachedd.

Roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym:

“Rwy'n hapus iawn bob tro, mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas”

Mae'n bwysig bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol a sensitif. Nodwyd gennym fod nifer fawr o gofnodion cleifion yn cael eu storio ar silffoedd agored y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Roedd rhywfaint o wybodaeth am gleifion hefyd yn cael ei storio

mewn cabinetau ffeilio yn swyddfa rheolwr y practis, a dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu cloi ar ddiwedd y dydd. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd ffeiliau rhai cleifion mewn basged ar y llawr, yn aros i gael eu prosesu gan y staff. Roedd gwybodaeth am gleifion a dogfennaeth arall a oedd wedi'i harchifo yn cael ei storio mewn uned ar wahân yn y ganolfan siopa. Er bod yr uned hon yn ddiogel, roedd y ddogfennaeth yn cael ei storio mewn blychau yn hytrach na mewn cabinetau dan glo. Nodwyd gennym hefyd fod perygl i rai radiograffau gael eu colli yn y practis oherwydd cyflwr gwael amlenni'r cofnodion. Rydym yn argymhell y dylai pob aelod o'r staff sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel er mwyn sicrhau na ellir mynd ati'n amhriodol na'i cholli. Gwelwyd bod hyn yn digwydd er bod gan y practis bolisi rheoli cofnodion a pholisi diogelu data priodol ar waith.

Nodwyd gennym fod y 9 Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ wedi'u harddangos yn yr ardal aros. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a dywedodd pob un ond un claf eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Roedd posteri yn yr ardal aros a oedd yn nodi costau triniaethau preifat a chostau triniaethau'r GIG yn glir. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Roedd polisïau ar waith yn y practis yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a chydysniad cleifion, ond nid oedd unrhyw bolisi yn mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer asesu, diagnosis a thrin cleifion, ac argymhellwn y dylid mynd ati i unioni hyn.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, roedd gan y practis Daflen Wybodaeth i Gleifion, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac roedd copïau ar gael i gleifion yn yr ardal aros. Roedd y daflen wedi'i chynnwys mewn ffolder ynghyd â rhestr o'r ffioedd ar gyfer triniaethau deintyddol preifat. Rydym yn cynghori y dylid cynnwys gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol y GIG hefyd.

Gwelsom fod oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis, ynghyd ag enwau a chymwysterau'r deintyddion i gyd. Dywedwyd wrthym fod y caeadau yn cael eu cau ar bob uned dros nos, a olygai na fyddai'r cleifion yn gallu gweld y wybodaeth hon, a dyna'r rheswm pam nad oedd y rhif y tu allan i oriau yn cael ei arddangos. Yn hytrach, roedd yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis.

Nodwyd gennym fod polisïau ar waith yn ymwneud â diogelu data a rheoli cofnodion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer asesu, diagnosis a thrin cleifion

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Gofal amserol

Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn cael ei darparu fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Fel y soniwyd uchod, roedd y caeadau'n golygu nad oedd y wybodaeth hon i'w gweld ar ôl i'r practis gau. Dywedwyd wrthym, pe bai claf yn cysylltu â'r practis yn y bore yn gofyn am apwyntiad brys, y gwneir pob ymdrech i ddarparu apwyntiad ar y diwrnod hwnnw, neu o fewn 24 awr o leiaf. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn ei chael hi'n "hawdd iawn" neu'n "eithaf hawdd" cael apwyntiad pan oedd ei angen arno.

Dywedodd ychydig o dan draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd y Datganiad o Ddiben² yn nodi pob triniaeth a ddarparwyd gan y practis heblaw am dawelyddu. Rydym yn argymhell y dylai gael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

Dangosodd adolygiad o gofnodion deintyddol y cleifion nad yw'r deintyddion yn cofnodi fel mater o drefn eu bod yn holi'r cleifion am eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis. Ceir argymhelliad yn hyn o beth yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Lle roedd hynny'n gymwys, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau ei Ddatganiad o Ddiben i nodi ei fod yn darparu tawelyddu

Hawliau pobl

Roedd y gwasanaeth ar y llawr daear ac roedd ar gael i bobl a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn. Gan fod dwy o'r deintyddfeydd yn rhy fach i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, byddai trefniadau yn cael eu gwneud iddynt gael

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw Datganiad o Ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

eu trin yn y ddeintyddfa fwy yng nghefn y practis. Roedd y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod ac yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb, a pholisi gwahaniaethu ar sail anabledde

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"³, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017⁴. Er bod y daflen i gleifion yn cyfeirio at AGIC, nid oedd y polisi, ond cafodd hyn ei unioni yn ystod yr arolygiad. Roedd y polisi'n cael ei arddangos yn y dderbynfa, ynghyd â gwybodaeth "Gweithio i Wella".

Roedd gan y practis unigolyn a enwebwyd fel y prif gyswllt ar gyfer cwynion. Roedd hefyd yn cynnal ffolder ar gyfer ffeilio cwynion. Dim ond un gŵyn a gafwyd ers 2016. Er bod y ffolder yn cynnwys y wybodaeth berthnasol i gyd, rydym yn awgrymu y dylid creu cofnod er mwyn cofnodi natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad.

Roedd llyfr nodiadau yn y practis i gofnodi unrhyw adborth anffurfiol a gwelsom flwch awgrymiadau hefyd. Er bod y practis yn adolygu'r sylwadau i gyd, nid yw'n rhoi adborth i'r cleifion. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried cynnwys math o adborth ar ffurf "dywedoch chi: gwnaethom ni" mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r cleifion.

³ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made/welsh>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd cyfarpar da yn y cyfleusterau clinigol ac roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, yn ogystal â thystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod nifer o bolisiâu perthnasol ar waith, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr. Roedd poster iechyd a diogelwch yn y swyddfa. Roedd cynllun parhad busnes ar waith hefyd.

Roedd polisi diogelwch tân ar waith a gwnaethom edrych ar y cofnodlyfr tân a diogelwch a oedd yn cofnodi'r gwiriadau wythnosol ar y synwryddion mwg a'r dyfeisiau diffodd tân. Hefyd, roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau blynyddol ar y dyfeisiau diffodd tân er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob 6 mis. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfeydd tân. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod asesiad risg tân wedi'i gynnal yn ddiweddar. Roedd pob aelod o'r staff, ac eithro un nyrs ddeintyddol, wedi cael hyfforddiant diogelwch tân, ac rydym yn argymhell y dylid unioni hyn.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon mawr gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Nodwyd gennym bod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n gywir ac yn ddiogel.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd drws ar yr ystafell ddihalogi benodedig, ac rydym yn argymhell y dylid gosod drws arni er mwyn sicrhau nad yw ymwelwyr â'r practis yn gallu cyrraedd yr offer neu'r cemegion sydd wedi'u storio yn yr ystafell honno.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thafleini data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis ganllawiau ar drin a thrafod mercwri yn ei bolisi iechyd a diogelwch, ac roedd pecyn gollyngiadau ar gael.

Roedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a diogelwch tân.

Dylai'r practis osod drws ar yr ystafell ddihalogi er mwyn sicrhau bod yr offer a'r cemegion a gaiff eu storio yn yr ystafell yn ddiogel.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd

Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Rydym yn cyfeirio uchod at y ffaith nad oes drws ar yr ystafell hon.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau, polisi imiwneiddio a pholisi anafiadau offer miniog ar waith.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rhan fwyaf o'r staff clinigol dystysgrifau ar ffeil yn cadarnhau eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi argyfyngau meddygol a dadebru. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i rôl, os ceir argyfwng meddygol, byddem yn awgrymu y dylai'r practis ddiwygio ei bolisi argyfyngau meddygol er mwyn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r staff.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd hyd at lefel o fedruswydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl⁶. Ac eithrio un deintydd a'r hylenydd, gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

⁶ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁷. Nodwyd gennym fod Midazolam yn y practis ond nad oedd unrhyw bolisi cyffuriau a reolir na pholisi tawelyddu ar waith, ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni. Nodwyd gennym fod gan y practis system ar waith ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer i'w defnyddio mewn argyfwng yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio.

Gwelsom fod y feddyginiaeth i gyd yn cael ei storio'n ddiogel ac yn ystod yr arolygiad, cafodd y padiau presgripsiwn eu symud i gabinet dan glo.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn deall y weithdrefn briodol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â chyffuriau neu ddyfeisiau meddygol drwy gynllun Cerdyn Melyn⁸ MHRA.

Mae'r practis yn cynnig tawelyddu ond nid oedd polisi ar waith yn ymwneud â defnyddio cyffuriau a reolir ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd

Dylai'r practis roi polisi cyffuriau a reolir a pholisi tawelyddu ar waith.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion

⁷ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

⁸ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

sy'n agored i niwed. Nid oedd y practis wedi penodi swyddog diogelu arweiniol ac rydym yn cynghori y dylid nodi unigolyn ar gyfer y rôl hon. Rydym yn awgrymu hefyd bod y swyddog arweiniol yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu perthnasol i lefel 3.

Roedd polisi tanberfformio a chwythu'r chwiban ar waith yn y practis ac roedd trefniadau ar waith i staff godi unrhyw pryderon.

Roedd gan y staff clinigol a'r staff anghlinigol dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal ac yn gynhwysfawr, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol, gan gynnwys polisi ymbelydredd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)¹⁰ 2000, roedd pob aelod o staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol. Ymhlith yr archwiliadau a gaiff eu cynnal ar hyn o bryd, mae archwiliad cofnodion clinigol, archwiliad radiograffeg ac archwiliadau rheoli heintiau bob 6 mis.

⁹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi llywodraethu clinigol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau gan gymheiriaid deintyddol anffurfiol yn cael eu cynnal. Rydym yn cynghori bod y rhain yn cael eu ffurfioli ac yn rhoi trefn reolaidd ar waith.

Mae'r practis wedi defnyddio'r adnodd hunanwerthuso 'Skills Optimiser Self Evaluation' ¹¹ ac yn ddiweddar, mae wedi gwneud cais am adnodd datblygu practisau 'Matrics Aeddfedrwydd Deintyddol' Deoniaeth Cymru. Mae'r 'Adnodd Matrics Aeddfedrwydd' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y practis yn defnyddio ffeiliau papur a chyfeiriwyd at y dull o'u storio yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd y radiograffau'n ddigidol ac roedd trefniadau ar waith i wneud copiâu wrth gefn o'r rhain yn rheolaidd.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom mewn rhai achosion fod hepgoriadau, ac yn benodol nad oedd unrhyw gofnod o'r canlynol:

- Radiograffiau - archwiliadau cyffredin drwy dynnu lluniau o'r ochr wrth gnoi ('bitewing')
- Ni nodwyd y cyfiawnhad dros ddefnyddio a graddio radiograffau
- Ceisiwyd hanes cymdeithasol

¹¹Mae'r 'Skills Optimiser Self-Evaluation Tool' (SOSET) yn adnodd datblygu ar gyfer tîm practis deintyddol, sy'n galluogi'r tîm cyfan i ganolbwyntio ar y ffordd maent yn darparu gofal iechyd y geg yn effeithiol gan ddefnyddio dull 'cymysgedd sgiliau'/gwaith tîm.

- Cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Trafod opsiynau triniaeth
- Cadarnhau a chydlofnodi hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth
- Rhoi tystiolaeth o adalw gan NICE¹²
- Cydsyniad cleifion
- Nid oedd ffurflenni FP17¹³ yn cael eu llofnodi gan y deintydd

Argymhellwn y dylid cwblhau nodiadau cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol. Mae'n werth nodi bod templed wedi'i gyflwyno yn dilyn archwiliad diweddar o'r cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod llawer o'r wybodaeth goll, uchod, bellach yn cael ei chofnodi. Gwelsom fod y cofnodion yn aneglur ac yn anodd eu darllen a allai gael effaith ar driniaeth a'r dehongliad o wybodaeth berthnasol ar gyfer hawliadau'r GIG a byddem yn cynghori'r practis i ystyried cyflwyno cofnodion electronig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.

¹² <https://www.nice.org.uk/guidance/ng19/chapter/1-recommendations>

¹³ Mae ffurflenni FP17 yn rhoi manylion am ddata yn ymwneud â gweithgarwch deintyddol. Mae'r data a gofnodir ar y ffurflen FP17 yn dangos y ffioedd a gasglwyd gan y claf, nifer yr unedau o weithgarwch a berfformiwyd a'r wybodaeth am fandiâu triniaethau

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Robert Willner and Associates. Rheolwr y practis/yr uwch nyrs ddeintyddol oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gadarn a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r prif ddeintydd wedi bod yn berchen ar Bractis Deintyddol Robert Willner and Associates ers mwy na 25 mlynedd. Y prif ddeintydd yw'r unigolyn cyfrifo¹⁴

¹⁴ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall yn y sefydliad, ac sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli.

a'r rheolwr cofrestredig¹⁵. Roedd gan y practis ddeintydd cyswllt a gwraig y prif ddeintydd oedd orthodontydd. Rheolwr y practis/yr uwch nyrs ddeintyddol, wedi'i chefnogi gan Mrs Willner, oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod arweinyddiaeth gadarn yn y practis a bod pob aelod o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roeddent yn cynnwys dyddiadau creu ac adolygu a darpariaeth i'r staff ddangos eu bod wedi darllen y polisiâu ac wedi'u deall. Gwnaethom nodi hefyd y wybodaeth ychwanegol a ychwanegwyd at rai o'r polisiâu er mwyn helpu'r staff i ddysgu.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y prif goridor.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiâu Adnoddau Dynol ar waith yn y practis, ac roedd y staff wedi'u llofnodi i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a bod polisi recriwtio a pholisi hyfforddiant ar waith yn y practis. Roedd rhaglen sefydlu i nyrsys deintyddol a dywedwyd wrthym fod rhaglen sefydlu yn cael ei datblygu ar gyfer staff y dderbynfa. Pan fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio dros dro, roedd gweithdrefn ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn y practis.

¹⁵ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu. Mae cyfarfodydd arfarnu yn cynnwys trafodaeth ynghylch hyfforddiant a datblygiad, a oedd hefyd yn cael eu monitro gan Mrs Willner.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Cyfeiriwyd eisoes at yr eithriadau.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael copi o'r cofnodion ar ôl pob cyfarfod, a gaiff eu ffeilio yn eu ffeiliau staff.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwneidd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd yn rhinwedd ei rôl fel rheolwr cofrestredig ac unigolyn cyfrifol ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Robert Willner and Associates

Dyddiad arolygu: 29 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Robert Willner and Associates

Dyddiad arolygu: 29 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.	4.1 Gofal Gydag Urddas; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 13 (9)(c)	Caiff nodiadau cleifion eu cadw mewn system Railex wrth ochr desg y dderbynfa. Mae mynediad at yr ardal hon wedi'i ddiogelu erbyn hyn drwy osod system drws rholer sy'n cael ei chadw ar gau a dan glo, ac eithrio pan fydd angen i'r staff fynd i'r ardal honno. Caiff nodiadau cleifion yr aed â nhw o'r	Frances Willner	Cafodd y drws rholer diogel ei osod ar 6/12/18. Rhoddwyd y polisi ar waith o ran cadw holl

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		system Railex er mwyn trefnu apwyntiadau neu eu prosesu eu cadw mewn cabinetau dan glo. Caiff allweddi'r cabinetau a'r drws rholer eu cadw mewn sêff allweddi yn y swyddfa		nodiadau'r cleifion yn ddiogel mewn cabinetau dan glo a defnyddio sêff allweddi 12/11/18
Dylai'r practis ddatblygu polisi ar gyfer trefniadau asesu, diagnosio a thrin cleifion	4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 8	Mae taflenni'r practis bellach yn cynnwys y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau a gynhelir o dan y GIG. Mae polisi wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer trefniadau asesu, diagnosio a thrin cleifion. Bydd y polisi hwn yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 8. Bydd yn cyfeirio at ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, ein Datganiad o Ddiben a'n polisi cydsyniad. Bydd asesiadau'n seiliedig ar ganllawiau NICE, canllawiau arfer gorau o ran radiograffeg a mynegeion sgrinio a dderbyniwyd, h.y. CPITN. Cynhelir asesiadau a chynlluniau	Frances Willner	Polisi i'w gwblhau erbyn 31/12/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		triniaeth gan ddilyn y ffurflen FP17DC fel canllaw. Bydd y polisi'n cynnwys y gofyniad i opsiynau triniaeth gael eu trafod, gan gynnwys risgiau a manteision cysylltiedig, fel bod cydsyniad gwybodus a dilys yn cael ei geisio a'i gofnodi. Bydd yr holl weithdrefnau triniaeth a gynhelir yn cydymffurfio â'n polisi dihalogi ac yn unol ag arfer gorau presennol.		
Dylai'r practis ddiweddarau ei Ddatganiad o Ddiben i ddangos ei fod yn darparu tawelyddu	6.1 Cynllunio Gofal i hybu annibyniaeth; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adrannau 5 a 7 ac Atodlen 1	Mae'r Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddarau i gynnwys darparu triniaeth dan dawelyddu ymwybodol	Frances Willner	Eisoes wedi'i gwblhau
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch;	Ar adeg yr arolygiad, roedd asesiad o'r risg o dân wedi'i gynnal ar ddechrau mis Hydref ac roedd yr holl argymhellion	Frances Willner	Bydd ailgarnhau'r polisïau a'r

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 4	wedi'u cwblhau. Yn ogystal, roedd pob aelod o'r staff ac eithrio un nyrs wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân gan hyfforddwr allanol ar 20/09/18. Mae'r aelod o'r staff a fethodd yr hyfforddiant wedi cwblhau cyrsiau DPP cydnabyddedig ar-lein. Mae ymarfer tân wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y practis ym mis Ionawr		ymarfer tân yn rhan o gyfarfod y practis ym mis Ionawr
Dylai'r practis osod drws ar yr ystafell ddihalogi er mwyn sicrhau bod yr offer a'r cemegion a gaiff eu storio yn yr ystafell yn ddiogel.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 22	Yn ystod trafodaethau ag arolygwyr AGIC ar adeg yr arolygiad, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'n anodd rhoi drws ar ystafell mor fach, a derbyniwyd y syniad o roi "clwyd babanod" diogel fel mesur cadarnhaol i gyfyngu ar fynediad i'r ardal hon.	Frances Willner	Mae "Clwyd babanod" wedi'i roi'n ddiogel ar ffrâm y drws ac mae'n cael ei gadw ar gau bob amser, ac eithrio pan fydd angen i'r staff gael mynediad. Fe'i gosodwyd ar

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				15/11/12
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 17 Cyngor Dadebru y DU	Mae'r practis yn cynnal hyfforddiant mewnol ar sut i ymdrin ag argyfwngau meddygol ac ymgymryd â dadebru cardiobwlmonaidd yn flynyddol drwy Ddeoniaeth Cymru. Mae'r nyrs ddeintyddol a fethodd yr hyfforddiant a gynhaliwyd ar 9/10/18 bellach wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein cydanabyddedig ar gyfer DPP. I ategu hyn, darparwyd hyfforddiant mewnol personol ar gyffuriau argyfwng, dadebru cardiobwlmonaidd, defnyddio ocsigen ac offer dadebru gan Frances Willner	Frances Willner	Hyfforddiant wedi'i gwblhau
Dylai'r practis roi polisi cyffuriau a reolir a pholisi tawelyddu ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 8	Mae polisi cyffuriau a reolir a pholisi talwelyddu ymwybodol wedi'u rhoi ar waith, yn seiliedig ar Safonau Gwasanaeth ar gyfer Tawelyddu Ymwybodol mewn lleoliad gofal deintyddol, sy'n rhan o WHC(2018)009, ac yn dilyn y canllawiau ynddynt	Frances Willner	Polisiâu ar waith
Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff	3.5 Cadw cofnodion;	Mae'r practis wedi parhau i archwilio ei safonau mewn cysylltiad â nodiadau	Frances Willner	Trefnwyd weminar ar

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 20	clinigol drwy eu cymharu â chanllawiau AGIC. Penderfynwyd y dylai'r practis gadw cofnodion yn electronig. Er mwyn cyflawni hyn, gwnaed trefniadau i'r pratis gael cyngor gan Dentsys, y system rheoli practisau		gyfer 7/1/19 Trosglwyddo i nodiadau electronig cyn gynted â phosibl

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Frances Willner

Teitl swydd: 00102}Deintydd/Rheolwr Sicrhau Ansawdd a llywodraethu clinigol.

Dyddiad: 18/12/18